Bwletin Awdurdod S4C
- Cyfarfod 279 – 24 Mehefin 2005,
- Gregynog, Y Drenewydd, Powys

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2005.

Pwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth

Nodwyd fod y Pwyllgor wedi cwrdd cyn cyfarfod yr Awdurdod. Cymeradwywyd y Côd Cwynion i'w gyhoeddi ar wefan S4C.

Apwyntiad Prif Weithredwr

Llongyfarchwyd Iona Jones ar ei phenodiad fel Prif Weithredwr nesaf S4C a dymunwyd y gorau iddi. Y dyddiad trosglwyddo i ddechrau'r swydd fydd y 3ydd o Hydref.

Tendr Datblygu Rhaglenni

Nodwyd fod cytundebau i'w danfon i'r cwmnïau llwyddiannus yn ystod yr wythnosau nesaf.

Cyflwyniad

Cyflwynodd Lowri Gwilym, Comisiynydd Rhaglenni Ffeithiol Cyffredinol ei hadroddiad yn amlinellu arlwy'r flwyddyn hon a'i syniadau ar gyfer y dyfodol.

Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi

Nodwyd bod y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr wedi rhoi tystiolaeth gerbron Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar yr Adolygiad y Siarter.

Nawdd

Cymeradwywyd yr argymhellion ar y Nawdd canlynol:

- Promax UK
- Gŵyl Gerddoriaeth "Compass Point"

Cytunwyd y dylid ail-edrych ar y canllawiau Nawdd ar draws ystod eang o Adrannau pan fydd y Prif Weithredwr newydd yn ei lle.

Materion Eraill

Yn ogystal trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Rhaglenni/Cynnwys
- Adroddiad Ariannol
- Adroddiad Cwynion
- Adroddiad a Chofnodion Cyfarfod y Grŵp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd 15 Gorffennaf 2005
- Adroddiad Gwifren Gwylwyr
- Adroddiad Ymchwil